# MEMORANDWM ESBONIADOL AR GYFER RHEOLIADAU LLYWODRAETHU YSGOLION A GYNHELIR (CYMRU) (DIWYGIO) 2020

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

## Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2020.

Kirsty Williams
Y Gweinidog Addysg
23 Tachwedd 2020

## 1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2020 (“Rheoliadau Diwygio 2020”) yn diwygio Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 (“Rheoliadau 2005”).

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Dim

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Rheoliadau Diwygio 2020 yn ddarostyngedig i’r weithdrefn negyddol ac fe’u gwnaed drwy arfer y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru gan adrannau 19(3), 210(7) o Ddeddf Addysg 2002.

Mae’r darpariaethau a geir yn y Rheoliadau yn rhoi fframwaith i gyrff llywodraethu yng Nghymru weithredu ynddo ac yn cynnwys categorïau o lywodraethwyr, cyfansoddiad, cymhwyster a deiliadaeth, offerynnau llywodraethu, darpariaeth drosiannol, penodiadau, cyfarfodydd a thrafodion a phwyllgorau.

Mae Atodlen 5 yn darparu meini prawf anghymhwyso ar gyfer llywodraethwyr, gan gynnwys mewn perthynas â Deddf Iechyd Meddwl 1983. Mae Atodlen 5 hefyd yn darparu cyfeiriadau at ddarpariaethau sy’n ymwneud â Gogledd Iwerddon a’r Alban.

Mae Rheoliadau 45 a 60 yn darparu ar gyfer sut y dylai cyrff llywodraethu yng Nghymru gyfarfod, ac mae Rheoliadau 47 a 61 yn darparu ar gyfer sut y dylid cofnodi cyfarfodydd cyrff llywodraethu a chadw’r cofnodion hynny.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

Diben Rheoliadau Diwygio 2020 yw darparu fframwaith addas a theg i gyrff llywodraethu ysgolion weithredu ynddo, gan sicrhau na fydd achosion o wahaniaethu yn erbyn llywodraethwyr a darpar lywodraethwyr os ydynt yn agored i gael eu cadw’n gaeth o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Maent yn caniatáu i gyrff llywodraethu gynnal eu cyfarfodydd drwy fynediad o bell yn ogystal â cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Maent hefyd yn caniatáu i gyrff llywodraethu wneud cofnodion electronig o’u cyfarfodydd a’u penderfyniadau, gyda’r nod o hwyluso’r arfer o gadw cofnodion gwell, a chadw’r rheoliadau’n gyfredol mewn cysylltiad â’r personau y gwaherddir eu cyflogi neu y cyfyngir ar eu cyflogi.

Mae Rheoliadau Diwygio 2020 yn diwygio Rheoliadau 2005 yn y ffyrdd canlynol:

- Rheoliad 45 a 60: diwygio er mwyn caniatáu cynnal cyfarfodydd drwy fynediad o bell. Mae'r newid hwn yn egluro y caniateir cyfarfodydd mynediad o bell, rhithiol (hynny yw telegynadledda neu fideo-gynadledda) gan sicrhau bod y rheoliadau yn gyson ag arferion cyffredin. Dyma'r amodau sy'n caniatáu ar gyfer cyfarfodydd mynediad o bell:
    1) y bydd y cyfranogwyr yn gallu cyflwyno sylwadau neu gyflawni eu swyddogaethau yn llawn;
    2) bod y cyfranogwyr yn cytuno i'r cyfarfod gael ei gynnal gan ddefnyddio mynediad o bell;
    3) bod gan bob cyfranogwr fynediad at y dulliau electronig er mwyn caniatáu iddo glywed a chael ei glywed, a gweld a chael ei weld;
    4) bod modd cynnal y cyfarfod yn deg ac yn dryloyw.

- Rheoliad 47 a 61: diwygio er mwyn caniatáu i gofnodion etc. gael eu cadw'n electronig. Bydd y newid hwn yn hwyluso ffyrdd gwell o gadw cofnodion ac yn sicrhau bod y rheoliadau yn gyson â'r drefn arferol bresennol.

- Atodlen 5: tynnu'r maen prawf anghymwyso mewn perthynas â Deddf Iechyd Meddwl 1983, a thrwy hynny'n atal gwahaniaethu yn erbyn pobl sy'n agored i gael eu cadw'n gaeth o dan y Ddeddf.

- Atodlen 5: diwygio er mwyn diweddaru'r cyfeiriadau at ddeddfwriaeth Gogledd Iwerddon a'r Alban, sy'n sicrhau bod y rheoliadau'n gydnaws a gweddill y Deyrnas Unedig.

## 5. Ymgynghori

Cynhaliwyd ymgynghoriad chwe wythnos, o 12 Awst hyd 23 Medi 2020, ar y newidiadau arfaethedig i weithdrefnau llywodraethu ysgolion. Tynnwyd sylw cynulleidfa eang o randdeiliaid allweddol at yr ymgynghoriad, gan gynnwys ysgolion, awdurdodau lleol a llywodraethwyr.

Cafwyd cyfanswm o 127 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd cefnogaeth hynod gref i'r holl argymhellion ac oherwydd hynny gweithredwyd yn llawn ar y cynigion.

Yn ychwanegol at yr ymgynghoriad ffurfiol, rhoddodd Mind Cymru gyngor ar dynnu'r maen prawf anghymhwyso mewn perthynas â Deddf Iechyd Meddwl 1983.

## 6. Asesiadau Effaith

Cynhaliwyd Asesiad Effaith Integredig wrth wneud Rheoliadau Diwygio 2020. Bydd yr Asesiad Effaith a'r Rheoliadau yn cael eu hadolygu'n barhaus.

## Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Nid oes unrhyw gostau nac arbedion yn deillio o Reoliadau Diwygio 2020, felly ni chafodd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei gwblhau. Ni ragwelir unrhyw effaith ar fusnesau, elusennau na chyrff gwirfoddol.

## Y Gymraeg

Nid oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol sy'n benodol i'r Gymraeg.

Mae Rheoliadau Diwygio 2020 yn rhoi hyblygrwydd i gyrff llywodraethu gynnal eu busnes drwy fynediad o bell neu gyfarfodydd wyneb yn wyneb. Yr amodau sy’n caniatáu ar gyfer cyfarfodydd mynediad o bell yw y bydd y cyfranogwyr yn gallu cyflwyno sylwadau neu gyflawni eu swyddogaethau yn llawn; eu bod yn cytuno i’r cyfarfod gael ei gynnal gan ddefnyddio mynediad o bell; bod gan bob cyfranogwr fynediad at y dulliau electronig er mwyn caniatáu iddo glywed a chael ei glywed, a gweld a chael ei weld a bod modd cynnal y cyfarfod yn deg ac yn dryloyw.

## Hawliau Plant

Nid oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol sy'n benodol i Hawliau Plant. Fodd bynnag, mae hwyluso recriwtio llywodraethwyr a chael cyrff llywodraethu effeithlon yn cefnogi erthyglau 28 a 29 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn, sydd yn rhoi hawl i blant a phobl ifanc i gael addysg sy’n datblygu eu doniau i’r eithaf.

## Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Mae posibilrwydd o effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb wrth ganiatáu defnyddio cyfarfodydd mynediad o bell  i gynnal busnes corff llywodraethu ysgolion. Efallai y bydd pobl â nodweddion gwarchodedig a/neu bobl sy’n byw mewn ardaloedd diarffordd yn gallu ymwneud mwy â chyrff llywodraethu ysgolion heb fod angen bod yn bresennol yn gorfforol ym mhob cyfarfod.

Mae Rheoliadau Diwygio 2020 yn darparu hyblygrwydd mewn perthynas â sut y mae cyrff llywodraethu yn cyfarfod a’r amodau y mae’n rhaid eu bodloni er mwyn cynnal cyfarfodydd mynediad o bell. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl gyfranogwyr yn cael eu trin yn deg.

## Preifatrwydd

Nid yw'r darpariaethau yn y  Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 yn cael eu heffeithio gan estyn y gwelliant i'r Rheoliadau hyn. Codwyd rhai pryderon mewn ymateb i’r ymgynghoriad, y byddai cadw cofnodion electronig yn peryglu diogelwch data.

Dylid nodi bod Rheoliadau Diwygio 2020 yn darparu hyblygrwydd i gyrff llywodraethu ysgolion gadw cofnodion yn electronig. Mae hyn yn gwneud y

Rheoliadau'n gydnaws â'r drefn arferol, ac, os defnyddir yr offer a'r meddalwedd addas, ni ddylai gael effeithiau andwyol ychwanegol ar ddiogelu data.

**Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder**

Er na chynhaliwyd Asesiad ffurfiol o'r Effaith ar Gyfiawnder, ni nodwyd unrhyw effeithiau wrth ystyried y Rheoliadau hyn.